

# HUW WILLIAMS yn cyflwyno Yr hen gyfrwywr o Lanrwst a'i rodd o'r dôn ar ddu a gwyn

ANAML y sylweddolir mai'r unig gerddoriaeth gysegredig a feddai ein cenedl ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf oedd y dwsin alawon a gyhoeddwyd yn *Salmau Cân* (Edmwnd Prys) yn 1621, a'r dau ddwsin o donau a drefnodd Ifan Wiliam, Llangybi, ar gyfer argraffiad 1770 o'r *Llyfr Gweddî Gyffredin*.

Bu cynulleidfaoedd gwahanol enwadau ein cenedl yn canu emynau gan Bantycelyn ac eraill am dros deigain mlynedd cyn y cafwyd casgliad o donau i ganu rhai o'r emynau arnynt, sef *Mawr yr Arglwydd* . . . wedi ei ddarparu gan John Ellis, Llanrwst, a'i gyhoeddi yn 1816.

A gyda'r Eisteddfod Genedlaethol eleni yn cael ei chynnal yn Llanrwst, a hithau hefyd yn ganmlwydd a hanner marw John Ellis, gweddus yw cofio un o'r gwyr hynny a fu'n gyfrifol am hau had diwylliant cerddorol gwerin Cymru, a rhoi ocs o lafur gyda cherddoriaeth gysegredig y genedl.

Mae llawer eisoes wedi cael ei ysgrifennu am yr arloeswr diwyd hwn, a aned ym mhlwyf Llangwm yn 1760, cyn symud i fyw i Lanrwst, lle yr agorodd fusnes cyfrwywr yn Heol Sgotland, a threulio tua deugain mlynedd yn y dref, yn uchel ei barch, ac yn fawr ei sêl fel un o athrawon cerdd crwydrol (neu 'ddirprwywr teithiol' fel y gelwid ef) y Methodistaid Calfinaidd.

TREULIODD William Williams, Plas Llecheiddior, Llanrwst, fynyddoedd lawer yn ymchwilio i hanes John Ellis, a chyhoeddi peth o frwyth yr ymchwilio hwnnw yng *Nghylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistaid Calfinaidd*, Mai 1928.

Cyn hynny, cafwyd ysgrif werthfawr ar yr arloeswr diwyd a'i waith gan Philip Thomas, Castell Nedd, yn rhifyn Rhagfyr 1921 o'r *Cerddor*, a chan Hugh Evans (awdur *Cwm Eithin*, a pherthynas i deulu'r cerddor) yn rhifyn Rhagfyr 22, 1927 o'r *Brython*.

Trwy gyfrwng cyfraniadau fel y rhain, ac ymchwiliadau diweddarach R.D. Griffith yn *Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru*, ceir darlun gweddol gyfwbwys o fywyd a gwaith John Ellis, ac afraid i bwrpas yr ysgrif hon fyddai ymhelaethu ar hanes ei gyfraniad fel athro crwydrol, ac

**MAWL YR ARGWLWYDD,**  
BYD  
**CASGLIAD O RANNAU O'R PSALMAU A'R HYMNAU,**  
YN ATTEBON LLESSL, A 1811  
**PENNILLION,**  
A'i gyflwyno gan  
**CYFARWYDDIADAU I OSOD ALLAN Y SYNWYR WITHE EDARLLAIN,**  
1816  
Cyhoeddiadau i gannu a'r Theatr;  
**A CASGLIAD O EGWYDDORION GWER TOLLANWYR YR ARGWLWYDD,**  
YN BOLLIEDD YR ATTEBON;  
1816  
BYDORODIADAU I DDYNGYFOD GYDDEDDOEDD ATTEBONCHOD O  
**GERDDORLAETH;**  
A'i gyflwyno gan  
**THE PRIFW.**  
ARGLWYDD I GANU DAFYDD  
1816



**JOHN ELLIS.**

yna ei weithgarwch gyda gwahanol achosion cerddorol a chrefyddol yn Lerpwl am oddeutu ugain mlynedd olaf ei oes.  
Ond mae *Mawl yr Arglwydd* . . . cyfrol sy'n mesur tua 9 1/2 x 6 1/2 modfedd, a'r llyfr tonau cyntaf a gafodd y genedl, yn ddau yn haeddu ychydig sylw. Mawlganau ar rannau o'r Ysgrhythur wedi eu hysgrifennu ar ddwy a thair erwydd (a bron i gyd o waith John Ellis ei hun) yw'r rhan fwyaf o'r cynnwys, ond ceir hefyd yn y gyfrol (fel y gweddai i athro *peripatetic!*) rannau sy'n cynnwys hyfforddiadau i ddysgu cerddoriaeth, a chyfarwyddiadau at ddarlun a chanu.  
Ac yn briodol iawn, fe geir ar ddechrau'r llyfr ddarlun o'r awdur, — "John Ellis, Cyfansoddydd Peroriaeth" — a

thôn gron o'i amgylch.  
NID WY'N sicr pa mor brin yw copïau o'r gyfrol hon, nac ychwaith yn rhyw siwr iawn a yw'r hyn a ddywedir amdani hwn ac yma yn gywir ai peidio. Tystiolaeth Llyfrbryl yn *Enwogion Cymru* yw bod y gwaith wedi ymddangos mewn tair rhan, y gyntaf yn costio deunaw ceiniog, yr ail dri a chwech, a'r drydedd hanner coron, yn gwneud cyfanswm o saith a chwech am y copi cyflawn.  
Argraffwyd y rhan gyntaf, meddir, gan Ishmael Dafydd, Trefriw (mab Dafydd Jones, a thad John Jones, Pyl Glan Conwy) oddi ar blatiau copr a wnaethpwyd yn Llundain, a'r rhannau eraill yn Llundain, lle y

treuliodd John Ellis ei hun rai misoedd yn arolygu'r gwaith argraffu, yn ôl yr hanes.  
Llyfr anhrefnus iawn yw *Mawl yr Arglwydd* . . . brithir y gerddoriaeth gan wallau cynghanedd a cham-acenu, a dywed yr awdur bethau hynod o ysmala yn ei sylwadau cyffredinol.  
Y traddodiad yw mai Mary (Jones), ail wraig yr awdur (a briododd yn 1811) a gosiodd gerddoriaeth y gyfrol ar gyfer y wasg. Yn enedigol o Wrecsam roedd hi'n cadw ysgol i ferched yn Llanrwst, ac yn cael ei hystyried yn wraig fedrus iawn ei llaw meddir.

BETH BYNNAG am wendidau *Mawl yr Arglwydd* . . . bu'r gwaith yn gyfrwng cychwyn y dôn gynulleidfaol Gymreig ar ei thaith urddasol trwy'r byd, ac yn sylfaen dibynadwy ar gyfer casgliadau a'i dilynodd gan Fillsiaid Llanidloes, Ambrose Lloyd, John Parry, Caer, Ieuan Glan Geirionydd, ac eraill.  
Er mai yn Llanrwst yr oedd John Ellis yn byw pan gyhoeddwyd ei muzgarn opus, carwn awgrymu mai yng Ngherrig-y-drudion, lle yr oedd niŵer o gerddorion medrus yn byw yn ystod cyfnod ei ieuenctid, y dysgodd ef egwyddorion cerddoriaeth.  
Ond fe ddylwn brysuro i ychwanegu ar drothwy Prifwyl '89 mai John Ellis a ddysgodd drigolion y dref a'i mabwysiadodd i ganu, ac y mae'n glod i ddisgynyddion y bobl hynny eu bod yn dal i ganu dros ganrif a thri chwarter yn ddweddarach!

## DARLITH LLANRWST

QS ydych am glywed hanes rhamantus y wasg yn Llanrwst ceuch y cefndir yn ei gyfarwydd gan yr arbenigwr, Gerald Morgan, ym Mhabell Lân y Brifwyl yn Llanrwst am unarddeg o'r gloch fore Gwener.  
Mae'r darlithydd yn awdurdod ar faledi a balodwyr yn agystal ag argraffwyr pwysig yr hen dref yn Nyffryn Conwy — ac o ganlyniad bydd yr achlysur nid yn unig o ddi-ddordeb lleol ond o bwysigrwydd cenedlaethol hefyd.